

# Beth yw eich sefyllfa?

**Allwch chi ddibynnu ar y pŵer statudol neu'r pŵer mewn deddfwriaeth arall** neu yn y ddogfen lywodraethol ar gyfer y gwarediad? - gweler adran 2.2.

Nac ydy

**Mae angen Gorchymyn y Comisiwn arnoch.** Cysylltwch â ni am fwy o wybodaeth.

Pam?

Os oes cyfyngiadau yn y ddogfen lywodraethol neu os oes rhyw reswm arall pam na allwch ddibynnu ar y pŵer statudol neu'r pŵer yn y ddogfen lywodraethol, bydd angen Gorchymyn arnoch i awdurdodi'r gwarediad.

Gallwch

**Ydy'ch gwarediad i unigolyn cysylltiedig?** Mae'n golygu rhywun sydd â chysylltiad agos â'r elusen - rhoddwr tir i'r elusen, ymddiriedolwr neu weithiwr neu rywun sy'n berthynas neu fusnes sy'n gysylltiedig mewn rhyw ffordd - gweler adran 10.

Gallwch

**Mae angen Gorchymyn y Comisiwn arnoch.** Ewch i'r tudalen 'Gwneud cais amdani' ar ein gwefan a llwythwch i lawr y pecyn cais ar gyfer gwarediadau i unigolion cysylltiedig - gweler hefyd adran 5.1 y canllaw hwn.

Pam?

**Trafodion gyda risg gweddol uchel yw'r rhain sy'n cynnwys gwrthdaro buddiannau. Mae'r wybodaeth a rowch ar y ffurflen gais yn cynnig modd i ni asesu eich rheolaeth o'r agwedd hon ynghyd â manylion eraill y trafodiad i weld a allwn wneud y Gorchymyn.**

Nac ydy

**Ydy'r tir yn cael ei ddal gan yr elusen at ddiben arbennig yr elusen (tir dynodedig) ac nid ydych yn bwriadu cael tir arall yn ei le?**

Gallwch

**Mae'n bosib y bydd angen i chi gysylltu â ni i gael Cynllun** oherwydd mae bron yn sicr y bydd angen newid dibenion eich elusen - gweler adran 5.2 y canllaw hwn.

Pam?

**Rydych yn gwaredu tir sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion eich elusen.** Os nad ydych yn bwriadu cael tir yn ei le yna mae'n debyg na fyddwch yn gallu cyflawni'r dibenion fel y cânt eu datgan ar hyn o bryd. Gall amcanion elusen gael eu newid gan Gynllun yn unig. **Hefyd...** mae'n rhaid i chi hysbysebu'r gwarediad ac ystyried unrhyw sylwadau a gewch (mae hyn yn ofyniad gwahanol i hysbysebu'r gwarediad i geisio cael y cynigion gorau ar gyfer yr eiddo).

Nac ydy

**Ydy'r gwarediad yn brydles am 7 mlynedd neu lai heb unrhyw ddirwy neu bremiwm?**

Gallwch

**Rhaid i chi:**

- gael ac ystyried cyngor gan rywun sydd â'r gallu a'r profiad i'ch cyngori - gwerthwr tir neu syrfêwr, er enghraifft
- penderfynu a ydych yn fodlon mai'r telerau ar gyfer y gwarediad yw'r rhai gorau y gellid yn rhesymol eu cael
- rhoi datganiadau a thystysgrifau penodol

Gweler adran 3 y canllaw hwn.

Pam?

**Mae'r rhain yn ofynion cyfreithiol, ond trwy gydymffurfio â nhw bydd:**

- syniad da gennych o werth y tir rydych yn bwriadu gwaredu ag ef
- dangos eich bod wedi deall yr argymhellion a'ch bod yn gweithio er lles gorau'r elusen
- rhoi sicrwydd i'r prynwr eich bod yn gwaredu'r tir mewn ffordd ddilys

Nac ydy

**Ydy'r gwarediad yn:**

- werthiant, trosglwyddiad neu drawsgludiad o dir rhydd-ddaliad?
- prydles am fwy na 7 mlynedd?
- rhoi neu ryddhau hawl, hawddfrait neu gyfamod cyfyngol?
- prydles am 7 mlynedd neu lai gyda dirwy neu bremiwm?
- unrhyw fath arall o warediad o dir sydd heb ei eithrio'n benodol?

Gallwch

**Rhaid i chi:**

- geisio ac ystyried adroddiad ysgrifenedig gan syrfêwr cymwysedig
- hysbysebu'r gwarediad oni bai fod eich syrfêwr yn argymhell na ddylech wneud hynny
- penderfynu a ydych yn fodlon mai'r telerau ar gyfer y gwarediad yw'r rhai gorau y gellid yn rhesymol eu cael
- rhoi datganiadau a thystysgrifau penodol

Gweler adran 4 y canllaw hwn.

Pam?

**Ni ddylai eich trafodiad gael ei ddosbarthu fel gwarediad yn ôl y diffiniad yn y cyd-destun hwn, neu gall fod amgylchiadau arbennig lle y gallwch waredu'ch tir heb Orchymyn y Comisiwn a heb yr angen i gydymffurfio â'r gofynion a nodwyd - gweler adran 7 y canllaw hwn.**

Nac ydy